# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Y Drydedd Gyllideb Atodol 2020-21

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

### Ad-dalu Gwarged Pensiwn

Bu'r Amcangyfrif ar gyfer 2020/21 yn destun craffu gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2019, cafodd ei gynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol ym mis Rhagfyr 2019 a'i ddiwygio gan Gyllideb Atodol ym mis Mai 2020.

Fel yr eglurwyd i'r Pwyllgor yn y sesiwn graffu ym mis Hydref 2020, ymddeolodd y gweithiwr olaf o Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn 2020/21 sy'n golygu bod OGCC, fel y cyflogwr, wedi gadael y Gronfa. Bu'r gronfa mewn gwarged, felly roedd y swm hwn i'w ad-dalu i OGCC.

Cwblhaodd Actiwari'r Cynllun ailbrisiad o'r Gronfa ar y dyddiad gadael, gan brisio'r Gronfa yn £ 974k. Mae'r gwarged hwn bellach wedi'i ad-dalu'n llawn i OGCC.

Yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y gall OGCC drin yr ad-daliad hwn o gostau pensiwn fel incwm. Yna, gellir defnyddio'r incwm ychwanegol hwn o £974k i dalu am y gwariant gweithredol. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau cyfanswm y gofyniad arian parod ar gyfer 2020/21 o'i gymharu â'r Cynnig Cyllideb wreiddiol o £974k.

I alluogi OGCC i drin y £974k fel incwm ychwanegol, bydd angen diwygio geiriad rhan 2 Atodlen 4 y Cynnig Cyllideb (y cwmpas ar gyfer incwm) i gynnwys 'ad-dalu gwarged pensiwn' yn y disgrifiad. Bydd hyn yn cynyddu lefel yr incwm y gall OGCC ei gadw, a bydd yn caniatáu i'r gostyngiad yng nghyfanswm y gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru gael ei ailddyrannu i rywle arall yng Nghymru.

### Angen Adnoddau Ychwanegol i Gyfrif am Wyliau Blynyddol Heb eu Cymryd

Ym mis Mai 2020, cynyddom dros dro'r nifer o wyliau blynyddol caniataëdig y gall staff ei gario ymlaen o un flwyddyn o wyliau blynyddol i'r nesaf, i 14 diwrnod. Mae blynyddoedd gwyliau blynyddol ein staff yn seiliedig ar y dyddiad y dechreusant eu cyflogaeth. Canslwyd gwyliau cynlluniedig sawl aelod o staff ac ni fyddai wedi bod yn rhesymol gwrthod cyfle i staff gael gwyliau. Ar yr adeg honno, yr oedd disgwyl y byddai staff yn cymryd gwyliau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan oedd yn bosibl teithio eto. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau teithio wedi parhau i raddau helaeth ac rydym bellach mewn cyfnod clo arall lle na chaniateir teithio. Er bod staff wedi cael eu hannog i gymryd amser i ffwrdd, ac wedi gwneud hynny, nid yw nifer o staff wedi cael cyfle i gymryd seibiant estynedig.

Mae difrifoldeb a hyd y cyfyngiadau sy’n deillio o’r pandemig yn fwy na'r hyn yr oeddem wedi gobeithio ym mis Mai, ac o ganlyniad bydd gwerth gwyliau blynyddol ein staff sydd heb eu cymryd, erbyn 31 Mawrth 2021, yn sylweddol. Oherwydd y cynnydd yn y nifer o wyliau blynyddol caniataëdig y gall staff ei gario ymlaen a’r diffyg cyfleoedd i gymryd gwyliau, amcangyfrifir bod gwerth y gwyliau blynyddol hyn oddeutu £160,000 yn fwy nag mewn blwyddyn arferol. Nid yw’r gwerth hwn, sydd yn ddyledus i staff i bob pwrpas, yn effeithio ar sefyllfa'r arian parod ond mae’n rhaid ei adlewyrchu yn ein cyfrifon fel ymrwymiad adnoddau. Mae’r gyllideb atodol yn dangos y gost ychwanegol hon, ynghyd ag addasiadau i ddangos nad yw’n effeithio ar sefyllfa'r arian parod.

Atodiad A

| Amcangyfrif | 2020/21 | 2020/21 |
|---|---|---|
| **Gwariant OGCC** | Y Gyllideb Wreiddiol | **Cyllideb Atodol** |
| | £000s | £000s |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £3,889 | £3,889 |
| Adnoddau ychwanegol - cynnydd yn y gwyliau blynyddol heb eu cymryd | - | £160 |
| Eiddo a chyfleusterau, gan gynnwys prydlesi | £425 | £425 |
| Ffioedd proffesiynol | £280 | £280 |
| Costau TGCh | £190 | £190 |
| Costau swyddfa | £118 | £118 |
| Teithio, hyfforddi a recriwtio | £90 | £90 |
| Cysylltiadau | £50 | £50 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | £5,042 | £5,202 |
| Cyfanswm incwm, gan gynnwys ad-dalu gwarged Pensiwn | (£17) | (£991) |
| **Gwariant Refeniw Net** | £5,025 | £4,211 |
| Gwariant Cyfalaf | £25 | £25 |
| **Cyfanswm Adnoddau Gweithredol** | £5,050 | £4,236 |
| Taliadau dibrisiant ag amorteiddio | £60 | £60 |
| Newid yn y Gwarged Pensiwn | - | £974 |
| **Cyfanswm Gwariant Adnoddau** | **£5,110** | **£5,270** |
| Taliadau dibrisiant ag amorteiddio | (£60) | (£60) |
| Newid yn y gwarged pensiwn | - | (£974) |
| Newid yn y cyfalaf gweithio - cynnydd yn y gwyliau blynyddol | - | (£160) |
| Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod | £20 | £20 |
| **Gofynion Arian Parod gan WCF** | **£5,070** | **£4,096** |